# Adroddiad Blynyddol Swyddogaeth Craffu 2024-2025

## Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

onestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Unio
yloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bo
gored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro G
yfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
wella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro G
yfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
wella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd .................... 2
Cyflwyniad .................... 3
Y Pwyllgorau Craffu .................... 3
Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor Craffu .................... 4
Ffeithiau Craffu .................... 5
Adroddiadau Monitro Craffu .................... 11
Craffu cyn Gwneud Penderfyniad a dwyn y Weithrediaeth i gyfrif .................... 11
Adolygiadau Gorchwyl a Gorffen .................... 12
Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu .................... 12
Craffu ar Gyd-bwyllgorau .................... 13
Gwella / Hunanasesu .................... 14
Arolygiadau / Archwilwyr Allanol .................... 15
Cyfranogiad y Cyhoedd ac Ymgysylltu .................... 15
Heriau .................... 16
Blaengynlluniau Gwaith .................... 16
Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu .................... 17

## Rhagair gan y Cadeirydd

| | |
|---|---|
| <br><br>Y Cynghorydd Giles Morgan Cadeirydd y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu a'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau Corfforaethol | Croeso i'r adroddiad swyddogaeth Craffu blynyddol ar gyfer eleni. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r gwaith yn ystod y flwyddyn, ac mae'n ychwanegol at yr adroddiadau blynyddol unigol a luniwyd gan bob Pwyllgor Craffu.<br><br>Mae pum pwyllgor yr Awdurdod wedi gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod y swyddogaeth Graffu yn cael cymaint o effaith ag sy'n bosibl ar draws yr awdurdod. Rydym wedi ystyried detholiad eang ac amrywiol o bynciau sy'n dod o dan ein rhaglenni gwaith, gan gynnwys adroddiadau blynyddol fel monitro perfformiad a'r gyllideb. Rydym hefyd yn rhagweithiol wrth graffu cyn gwneud penderfyniad.<br>Mae holl aelodau'r Pwyllgorau Craffu yn derbyn copi o Flaengynllun y Cabinet cyn gynted ag y caiff ei gyhoeddi a'i ddiweddaru, ac mae hyn yn golygu y gallwn ofyn am adroddiadau ar y pynciau hynny i'n galluogi ni i gyfrannu'n gynnar at benderfyniadau'r Cabinet.<br><br>Mae awdurdodau lleol yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol. Rwy'n gwybod y bydd Craffu yn helpu â'r heriau hyn trwy fod yn 'gyfaill beirniadol' i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau, trwy gefnogi arloesi yn y ffordd mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn darparu gwasanaethau, a thrwy fod yn llais y bobl pan fydd penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud.<br><br>Hoffwn ddiolch i'r holl Gadeiryddion Craffu, Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig am eu hymroddiad a'u cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod ein pwyllgorau wedi parhau i ddylanwadu'n gadarnhaol ar broses y Cyngor o wneud penderfyniadau. Diolch hefyd i Aelodau'r Cabinet am fynychu eu cyfarfodydd Pwyllgor Craffu perthnasol i gyflwyno ac ateb cwestiynau ar yr adroddiadau. Yn olaf, diolch i swyddogion adrannol am eu gwaith a'r tîm democrataidd am eu cefnogaeth a'u harweiniad trwy gydol y flwyddyn. |

## Cyflwyniad

Mae'r broses Graffu yn chwarae rôl allweddol wrth wella'r gwasanaethau y mae pobl a phlant Sir Gaerfyrddin yn eu defnyddio. Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau yn cael eu gwneud gan y Cabinet o 10 Cynghorydd Sir. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r 65 o gynghorwyr eraill ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol". Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol.

Dyma brif rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgorau:

- Archwilio pa mor dda y mae'r Cabinet a'r Cyngor yn perfformio;
- Dwyn y Cabinet i gyfrif a cheisio hyrwyddo proses benderfynu sy'n agored ac yn dryloyw;
- Monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor;
- Adolygu penderfyniadau'r Cabinet lle bo hynny'n briodol;
- Cynorthwyo'r Cabinet i ddatblygu, monitro, ac adolygu polisïau;
- Craffu ar y strategaeth cyllideb refeniw a'r rhaglenni buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig, a hynny fel rhan allweddol o'r broses ymgynghori;
- Galluogi sefydliadau a phartneriaid allanol i gyfrannu at y gwaith o ystyried materion a all effeithio ar y modd y cyflawnir blaenoriaethau'r Cyngor a'r sir gyfan;
- Rhoi mewnbwn i benderfyniadau allweddol trwy Graffu Cyn Gwneud Penderfyniad a Galw i Mewn.

## Y Pwyllgorau Craffu

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin bum Pwyllgor Craffu:

- Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio
- Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol
- Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd

Gall pob cynghorydd nad yw ar y Cabinet gael ei benodi ar o leiaf un pwyllgor craffu, gan ddibynnu ar ei ddiddordebau neu'i arbenigedd.

Mae pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar y Cabinet a Phortffolios penodol y Cabinet a'u priod feysydd gwasanaeth. Mae rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau a chylchoedd gwaith y Pwyllgorau Craffu ar gael yma.

Fel rheol, mae'r Pwyllgorau'n cyfarfod 8 gwaith y flwyddyn, bob chwe wythnos, i ystyried materion ac adroddiadau a gynhwysir mewn Blaengynllun Gwaith Craffu sy'n cael ei lunio ar ddechrau blwyddyn y cyngor a'i ddiweddaru'n rheolaidd. Trefnir cyfarfodydd

ychwanegol o bryd i'w gilydd os bydd angen, ac weithiau cynhelir cyfarfodydd arbennig neu gyfarfodydd ar y cyd i ystyried materion brys neu faterion trawsbynciol.

Mae cyfansoddiad y Pwyllgorau Craffu yn wleidyddol gytbwys i adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor cyfan, cyhyd ag y bo modd. Penodir Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor ar ddechrau pob blwyddyn cyngor a hynny am gyfnod o flwyddyn (e.e. Mai 2024 hyd nes Ebrill 2025). Maent hefyd yn cymryd rhan yn Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, sydd fel arfer yn cwrdd bob chwarter os oes angen i oruchwylio cyfeiriad strategol y broses Graffu.

## Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor Craffu

Lluniodd pob Pwyllgor Craffu adroddiad blynyddol o'i weithgareddau a chanlyniadau a/neu effaith ac mae'r rhain i'w gweld isod:

- Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio
- Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol
- Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd

Mae pob adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am sesiynau datblygu y gofynnir amdanynt gan bob Pwyllgor sy'n helpu i sicrhau bod gan aelodau'r wybodaeth a'r sgiliau i'w paratoi eu hunain i gyflawni eu rolau'n llwyddiannus. Mae'r sesiynau hyn yn ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o Raglen Datblygu Aelodau'r Awdurdod.


## Ffeithiau Craffu

| | |
|---|---|
| Nifer y Cyfarfodydd Pwyllgor ffurfiol | 32 |
| Nifer yr Adolygiadau Gorchwyl a Gorffen | 4* |
| Cyfarfodydd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu | 1 |
| Cwestiynau gan y Cyhoedd/Pynciau i'w trafod | 0 |
| Ceisiadau Galw i Mewn | 0 |
| **Gwe-ddarlledu cyfarfodydd blwyddyn y cyngor 2024/2025:**<br><br>Cyfanswm sy'n gwylio'n fyw ac sy'n gwylio nôl fesul pwyllgor: | |
| • Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio | 778 |
| • Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol | 526 |
| • Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg | 568 |
| • Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 691 |
| • Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd | 615 |
| Nifer a fwriodd olwg ar dudalen lanio'r Pwyllgor Craffu | **1,266** (1026 – 23/24) |

*ar waith ac wedi'i gwblhau

## Nifer a fwriodd olwg ar dudalennau cyfarfodydd Craffu i weld agendâu, cofnodion a mynychwyr:


Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio




**Meeting page statistics**

| Meeting date | Page hits |
|---|---|
| 28/05/2024 | 554 |
| 08/07/2024 | 297 |
| 01/10/2024 | 310 |
| 11/11/2024 | 148 |
| 07/01/2025 | 158 |
| 20/01/2025 | 160 |
| 04/03/2025 | 47 |
| 15/04/2025 | 228 |


Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol




**Meeting page statistics**

| Meeting date | Page hits |
|---|---|
| 29/05/2024 | 975 |
| 09/07/2024 | 335 |
| 06/11/2024 | 157 |
| 18/12/2024 | 152 |
| 31/01/2025 | 159 |
| 06/03/2025 | 48 |
| 16/04/2025 | 208 |


Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg




**Meeting page statistics**

| Meeting date | Page hits |
|---|---|
| 17/05/2024 | 980 |
| 26/06/2024 | 603 |
| 15/10/2024 | 340 |
| 23/10/2024 | 17 |
| 04/12/2024 | 75 |
| 21/01/2025 | 114 |
| 19/02/2025 | 6 |
| 01/04/2025 | 69 |
| 13/05/2025 | 120 |


Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol




## Meeting page statistics

| Meeting date | Page hits |
|---|---|
| 02/05/2024 | 887 |
| 13/06/2024 | 440 |
| 25/07/2024 | 190 |
| 21/10/2024 | 174 |
| 28/11/2024 | 136 |
| 03/02/2025 | 100 |
| 20/03/2025 | 139 |
| 30/04/2025 | 101 |

Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd




**Meeting page statistics**

| Meeting date | Page hits |
|---|---|
| 06/06/2024 | 497 |
| 16/07/2024 | 97 |
| 31/07/2024 | 135 |
| 07/10/2024 | 163 |
| 20/11/2024 | 130 |
| 28/01/2025 | 133 |
| 10/03/2025 | 65 |
| 14/03/2025 | 166 |
| 25/04/2025 | 132 |

## Adroddiadau Monitro Craffu

Mae pob Pwyllgor Craffu yn cael yr adroddiadau monitro canlynol, yn ôl yr arfer, ac wedi cytuno ar amlder a ffurf yr adroddiadau hyn a sut cânt eu derbyn:

- Adroddiadau Monitro Perfformiad – Un o brif rolau Pwyllgor Craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau sydd o fewn ei faes gorchwyl. Maent yn gwneud y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau monitro perfformiad, sy'n rhoi darlun cytbwys o berfformiad. Cafodd pob Pwyllgor Craffu gyfle i ystyried Adroddiad Blynyddol y Cyngor a gynhyrchwyd yn unol â'r darpariaethau perthnasol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i seilio ar ein pedwar Amcan Llesiant a amlinellwyd yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022-27. Roedd strwythur adroddiad 2023-24 ychydig yn wahanol i'r rhai blaenorol, sef bod cynnydd wedi'i nodi o dan y 'canlyniadau rydym yn gobeithio eu cyflawni' a oedd yn ffurfio ein hamcanion llesiant. Roedd hyn yn sicrhau aliniad gwell a mwy di-dor rhwng ein Strategaeth Gorfforaethol a sut y mae'r Awdurdod yn adrodd ar ei gynnydd.

- Adroddiadau Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf – Mae pob Pwyllgor Craffu yn cael adroddiadau ynghylch cyllidebau cyfalaf a refeniw y gwasanaethau sydd o fewn eu cylch gwaith.

- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gamau Gweithredu ac Atgyfeiriadau – Yn ystod blwyddyn y cyngor, mae'r Pwyllgorau Craffu yn gwneud nifer o argymhellion a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol i'w helpu i gyflawni'u rôl graffu.

## Craffu cyn Gwneud Penderfyniad a dwyn y Weithrediaeth i gyfrif

<u>Craffu cyn Gwneud Penderfyniad</u>

Mae gan Sir Gaerfyrddin broses Craffu cyn Gwneud Penderfyniad sy'n golygu y gall Pwyllgorau Craffu ofyn am weld adroddiadau o Flaengynllun y Cabinet yn gynnar, gan ganiatáu i bob Pwyllgor fwydo a mewnbynnu i ddatblygiad polisi wrth i'r adroddiad gael ei lunio.

Mae pob Cynghorydd yn derbyn copi o Gynllun y Cabinet pan fydd y fersiynau diweddaraf yn cael eu cyhoeddi, ac wedyn gall ofyn i'r swyddogion cymorth Democrataidd amserlennu adroddiadau'r Cabinet yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu er mwyn iddynt gyfrannu i'r adroddiad terfynol.

Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn cael copi ymlaen llaw o adroddiadau monitro'r gyllideb Refeniw a Chyfalaf sy'n caniatáu iddynt ofyn i wybodaeth benodol fod ar gael i'w thrafod yn y Pwyllgor Craffu.

<u>Cyfranogiad Aelodau'r Cabinet</u>

Mae disgwyl i Aelodau Cabinet fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu i ganiatáu craffu ar eu portffolios priodol mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir. Mae Aelodau'r Cabinet yn cyflwyno adroddiadau ac yn ateb cwestiynau mewn perthynas â phenderfyniadau arfaethedig sydd wedi'u cynnwys yn y Blaengynllun Gwaith/ar yr agenda.

## Adolygiadau Gorchwyl a Gorffen

Wedi'i gwblhau:-

Ystyriodd y Cabinet adroddiad gorchwyl a gorffen gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio ar Bolisi Addasiadau'r Awdurdod yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2024.

Cyflwynodd yr adolygiad Gorchwyl a Gorffen 5 argymhelliad a chytunwyd ar y rhain gan y Cabinet. Gallwch weld copi o'r adolygiad a chofnodion y Cabinet yma.

Ar waith:-

Mae adolygiad Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 'Dechrau Egnïol ac Iach' yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd a bydd yn cael ei ystyried gan y Cabinet ym Mehefin 2025.

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yn cynnal 'adolygiad o swyddogaeth trwyddedu bridio cŵn y Tîm Iechyd Anifeiliaid, Materion Defnyddwyr a Busnes', a disgwylir bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn hydref 2025.

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar waith ar hyn o bryd ar berfformiad a datblygiad y Ganolfan Gyswllt Gorfforaethol.

## Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu

Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn aelodau o'r Fforwm Craffu. Mae'r Fforwm yn bwrw golwg ar holl waith craffu'r Cyngor, gydag aelodau'n herio ei gilydd i sicrhau bod y materion cywir yn cael eu blaenoriaethu. Rôl y Fforwm Craffu yw

- Trafod a chynnig gwelliannau i'r broses Graffu i'w hystyried gan Weithgor Adolygu Cyfansoddiad y Cyngor;
- Trafod a chynnig eitemau i'w trafod mewn cyfarfodydd gyda'r Cabinet ddwywaith y flwyddyn;
- Gweithredu fel fforwm ar gyfer rhannu a lledaenu arferion da Craffu;
- Derbyn adborth ar ddigwyddiadau'r Rhwydwaith Craffu a chyfarfodydd perthnasol eraill;
- Helpu i nodi anghenion dysgu a datblygu ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y pwyllgorau craffu ac aelodau'r Pwyllgorau.

Mae cyfle i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu gwrdd â'r Cabinet ddwywaith y flwyddyn os ydynt yn dymuno.

Cwrddodd y Fforwm unwaith yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

CANLYNIAD
Cytunwyd ar gynnwys a hyd a lled y gweithdy 2 ddiwrnod ar Hunanasesu'r swyddogaeth Graffu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA).

## Craffu ar Gyd-bwyllgorau

Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth

Mae Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth yn grŵp rhanbarthol sy'n cynnwys Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yr holl Bwyllgorau Craffu Addysg ledled consortiwm Partneriaeth. Caiff y cyfarfodydd eu gweinyddu gan Dîm Craffu Dinas a Sir Abertawe. Nod y Grŵp yw sicrhau bod craffu cyson ledled y rhanbarth ar faterion sydd o fewn cylch gorchwyl Partneriaeth. Mae'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod eitemau Partneriaeth a manteisir hefyd ar y cyfle i ystyried eitemau eraill sydd o ddiddordeb cyffredin ym maes addysg. Cynhelir y cyfarfodydd ar sail rota rhwng yr Awdurdodau Lleol sy'n ffurfio Partneriaeth. Mae Cadeirydd newydd i bob Grŵp ac fel rheol ef neu hi yw Cadeirydd pwyllgor yr awdurdod lleol lle y cynhelir y Grŵp. Cynhaliwyd tri chyfarfod yn ystod blwyddyn y cyngor Sir Gaerfyrddin. Gwnaed penderfyniad i ddiddymu'r Cyd-bwyllgor Partneriaeth ym mis Ebrill 2025 a'i drosglwyddo i gytundeb cydweithredol, felly daethpwyd â'r Grŵp Cynghorwyr Craffu i ben.

Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Mae Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn bwyllgor craffu rhanbarthol sy'n cynnwys 12 aelod anweithredol o bedwar Awdurdod Cyfansoddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2018 i adolygu a chraffu ar Gyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Nod y Cyd-bwyllgor Craffu yw sicrhau mwy o atebolrwydd cyhoeddus o ran penderfyniadau a wneir gan y Cyd-bwyllgor ac unrhyw un o'i is-bwyllgorau a chyrff cysylltiedig. Mae hyn yn ategu gwaith craffu Awdurdodau Lleol ar brosiectau unigol o'r Fargen Ddinesig sy'n rhan o'u maes gorchwyl. Cynhelir y Cyd-bwyllgor Craffu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Cyd-bwyllgor Craffu yn cwrdd bob chwarter. Mae tri aelod o Gyngor Sir Caerfyrddin yn aelodau o'r Cyd-bwyllgor Craffu, gan gynnwys yr Hyrwyddwr Craffu. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod yn ystod blwyddyn y cyngor. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yma.

Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru

Cafodd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ei sefydlu'n ffurfiol ym mis Ionawr 2022, ac mae'n cwmpasu ardaloedd Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Bydd y Pwyllgor yn gwella cynllunio rhanbarthol, cydlynu a darparu trafnidiaeth, cynllunio defnydd tir, datblygu economaidd ac ynni. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae tri aelod anweithredol o Gyngor Sir Caerfyrddin wedi cael eu penodi i'r ddau Is-bwyllgor. Ni chyfarfu'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio unwaith yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, a chyfarfu'r Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu chwe gwaith. Cynhelir yr Is-bwyllgor Craffu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (gellir gweld rhagor o wybodaeth yma a chynhelir yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan Gyngor Sir Penfro (gellir gweld rhagor o wybodaeth yma).

## Gwella /Hunanasesu

Fel rhan o'i Adolygiad Dilynol ynghylch Trosolwg a Chraffu "Addas ar gyfer y dyfodol", canfu Archwilio Cymru nad oedd yr Awdurdod wedi cwrdd ag un o'i gynigion ar gyfer gwella eto a rhoddodd drefniadau ar waith i asesu effeithiolrwydd ac effaith craffu. Yn ogystal, teimlai Archwilio Cymru fod adroddiadau blynyddol y Pwyllgor Craffu yn ymwneud yn bennaf â'r gwaith a wnaed yn hytrach nag asesiad o effeithiolrwydd neu effaith.

Er bod holiadur hunanasesu wedi'i gynnal ddiwedd 2023, cytunwyd bod angen gwneud gwaith pellach. Yn ystod y flwyddyn, comisiynwyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnal gweithdy hunanasesu dau ddiwrnod. Cafodd y Gweithdai, yn benodol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Craffu, eu cynnal yn rhithwir ar 18 Chwefror 2025, ac wyneb yn wyneb ar 24 Chwefror 2025.

Mynychodd 29 o Aelodau Craffu y diwrnod cyntaf ac fe wnaeth hyn leihau i 12 Aelod Craffu
ar gyfer Rhan 2.

Roedd y gweithdy dau ddiwrnod wedi'i rannu fel a ganlyn:-

Rhan Un: Gweithdy Craffu Effeithiol
- Deall a chytuno ar rôl a phwrpas y swyddogaeth graffu
- Adolygu nodweddion craffu effeithiol
- Adolygu eich dulliau craffu
-

Rhan Dau: Hunanwerthuso
- Asesu perfformiad craffu cyffredinol
- Myfyrio ar arferion unigol ac arferion pwyllgorau
- Nodi unrhyw welliannau y gellid eu gwneud yn bersonol ac yn lleol.

**<u>Canlyniad:</u>**

Roedd yr aelodau a fynychodd y sesiwn yn gadarnhaol, ac yn teimlo bod dealltwriaeth glir a chyffredin ganddynt o rôl a phwrpas craffu. Roedd teimlad bod parch yn gyffredinol at graffu o fewn y Cyngor ac yn allanol, a bod perthynas effeithiol rhwng craffu a'r Cabinet. Bernid bod craffu'n gweithredu'n annibynnol ar y Cabinet ac yn herio'n anwleidyddol. Roedd presenoldeb Aelodau'r Cabinet i gyflwyno adroddiadau ac ateb cwestiynau yn cael ei groesawu.

Meysydd i'w datblygu:-

1. Cyn-gyfarfodydd: Caniatáu rhagor o amser i baratoi a herio.
2. Symleiddio Agendâu: Canolbwyntio ar lai o eitemau fesul cyfarfod ond sicrhau eu bod yn rhai ag effaith fawr.
3. Gwella Ansawdd a Phrydlondeb yr Adroddiad: Gosod disgwyliadau clir ar gyfer yr hyn sydd i'w gyflwyno gan swyddogion.
4. Adolygu ac Adnewyddu'r Blaengynllun yn rheolaidd: Sicrhau hyblygrwydd ac ymateboldeb.
5. Buddsoddi mewn Datblygu Aelodau: Trwy hyfforddiant, e-ddysgu a dysgu traws-bwyllgor.
6. Cryfhau Ymgysylltu â'r Cyhoedd: Ymchwilio i ddulliau newydd i wella gwelededd a chyfranogiad.

## Arolygiadau/Archwilwyr Allanol

Dim cyfranogiad uniongyrchol gan Craffu yn ystod 2024/25

## Cyfranogiad y Cyhoedd ac Ymgysylltu

Cynhelir cyfarfodydd craffu ar sail aml-leoliad, mae hyn yn golygu cymysgedd o bresenoldeb corfforol ac o bell a chaiff yr holl gyfarfodydd ffurfiol eu gwe-ddarlledu'n fyw. Fel hyn gall ein trigolion a'n rhanddeiliaid fynychu ein Pwyllgorau Craffu, a gweld gwaith a thrafodaethau aelodau etholedig. Mae mynediad i'n gweddarllediadau ar gael ar ein gwefan am 6 mis ar ôl dyddiad y cyfarfod. Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd sy'n nodi'r ffyrdd y mae pobl leol yn cael eu hannog i gymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

Cymryd rhan yn y broses graffu yw un o'r ffyrdd gorau o ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir yn y Cyngor, gan y bydd Cynghorwyr yn cael clywed am brofiadau yn uniongyrchol. Gall y cyhoedd fod yn rhan o'r gwaith craffu mewn nifer o ffyrdd:

- Gofyn cwestiwn neu fynd i gyfarfod Pwyllgor Craffu
- Awgrymu pwnc i'w adolygu
- Cyfrannu tystiolaeth at adolygiadau craffu
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am beth sy'n digwydd ym maes Craffu trwy ein tudalennau gwe Craffu pwrpasol, hyrwyddo ac ymgysylltu trwy gyhoeddi gwybodaeth am Graffu, agendâu, a chylch gorchwyl Pwyllgorau
- Cysylltir â'r Cynghorau Tref a Chymuned yn flynyddol i roi gwybod am y swyddogaeth Graffu a chroesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer pwnc yr hoffent ei drafod.
- Mae Blaengynlluniau yn rhoi golwg gynnar ar wybodaeth, amserlenni Pwyllgorau a'r materion hynny i'w hystyried
- Adroddiadau Blynyddol Craffu – mae pob Pwyllgor Craffu yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n rhoi trosolwg o'r gwaith a wneir gan bob Pwyllgor Craffu
- Mae cyfarfodydd y pwyllgor yn cael eu darlledu'n fyw ac mae modd gwrando yn ôl arnyn nhw am hyd at 6 mis.
- Gwahoddir rhanddeiliaid a chynrychiolwyr allanol i gyfrannu at ehangu dealltwriaeth y pwyllgorau a llywio trafodaethau. Ymhlith y cynrychiolwyr sydd wedi mynychu eleni y mae: Ysgolion, Bwrdd Iechyd Cymunedol Hywel Dda
- Mae gennym aelodau cyfetholedig ar ein Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a’r Iaith Gymraeg, sy’n cynrychioli rhiant lywodraethwyr, yr Eglwys yng Nghymru a’r Eglwys Gatholig.

Er bod cyfranogiad y cyhoedd yn parhau i fod yn siomedig, mae ein ffigurau gwylio gwe-ddarlledu yn gadarnhaol.

Cytunodd y Cyngor yn ei gyfarfod blynyddol ym mis Mai 2025 y dylai deisebau gael eu hystyried nawr gan Craffu yn y lle cyntaf, gan basio unrhyw argymhellion ymlaen i'r corff priodol. Bydd hyn yn rhoi mwy o gyfrifoldeb i aelodau'r Pwyllgorau Craffu ynghylch y modd y caiff deisebau eu rheoli.

## Heriau

- Sicrhau bod blaenraglen waith y Cabinet yn gyflawn ac yn gadarn.
- Gwella'r ymgysylltu sy'n digwydd â'r cyhoedd ac ymrwymiad i waith y Pwyllgorau Craffu.
- Cynyddu cyfranogiad y cyhoedd a hyrwyddo'r swyddogaeth Graffu.
- Sicrhau bod Craffu yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac yn parhau i ganolbwyntio ar yr angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'n ofynnol yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i gynghorau ystyried effaith gwneud rhywbeth nawr a'r effaith hirdymor ar gyfer y dyfodol. Mae Craffu yn chwarae rhan trwy weithio mewn partneriaeth, gwneud defnydd effeithiol o amser mewn pwyllgorau, cwestiynu a gwneud argymhellion y mae modd eu cyflawni.

## Blaengynlluniau Gwaith

Mae Pwyllgorau Craffu yn cwrdd ym mis Mawrth a mis Ebrill bob blwyddyn i ddatblygu eu blaengynlluniau gwaith. Mae Blaengynlluniau Gwaith yn hyblyg ac yn cael eu datblygu i ymdopi â newidiadau o ran blaenoriaethau a phynciau yn ystod y flwyddyn. Trafodir eitemau posibl i graffu arnynt mewn sesiynau datblygu'r blaengynllun, ac anogir pob Pwyllgor Craffu i ddefnyddio offeryn blaenoriaethu yn seiliedig ar fodel a ddatblygwyd gan y Ganolfan Llywodraethiant a Chraffu.

Er mwyn sicrhau bod Pwyllgorau Craffu yn gallu cael mewnbwn o ran datblygiad polisi yn gynnar, drwy'r broses Craffu Cyn Gwneud Penderfyniad darperir copïau o gynllun y Cabinet i Bwyllgorau Craffu ar ôl ei gyhoeddi, a gallant ofyn am weld adroddiadau wythnosau/misoedd cyn bod y Cabinet yn ystyried yr adroddiad.

Mae edrych ar benderfyniadau cyn iddynt gael eu gwneud yn ffordd bwysig o ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny, ac o'u gwella. Mae'n rhoi cyfle i'r rhai sy'n craffu herio rhagdybiaethau a allai fod wedi'u gwneud wrth i'r penderfyniad gael ei ddatblygu; mae hefyd yn rhoi cyfle iddynt ystyried sut mae rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedi ystyried pa risgiau a allai godi drwy weithredu'r penderfyniad, a sut y gellid lliniaru'r risgiau hynny.

Mae cynghorwyr Craffu yn dod â phersbectif gwahanol i'r broses gwneud penderfyniadau na'r hyn a roddir gan aelodau'r Cabinet neu swyddogion, a all helpu penderfyniadau i fod yn fwy cadarn. Yn aml, mae edrych ar benderfyniad cyn iddo gael ei wneud yn ffordd fwy effeithiol o graffu nag edrych ar benderfyniad ar ôl iddo gael ei wneud (er enghraifft, trwy'r broses galw i mewn), pan fydd y cyfle i ddylanwadu ar y penderfyniad hwnnw a'i newid yn eithaf prin.

Mae agenda pob Pwyllgor Craffu yn cynnwys eitem safonol o'r enw 'Eitemau ar gyfer y Dyfodol', sy'n caniatáu i aelodau adolygu a rheoli'r Blaengynllun Gwaith trwy edrych ar restr o bynciau arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf. Mae'r broses hon yn galluogi aelodau'r pwyllgorau i awgrymu eitemau i

swyddogion eu cynnwys yn eu hadroddiadau, sy'n hwyluso craffu cynhwysfawr a aiff i'r afael â materion sy'n berthnasol i gymunedau Sir Gaerfyrddin.

Mae'r holl flaengynlluniau gwaith ar gael ar wefan yr Awdurdod.

## Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn Is-adran y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil yn Adran y Prif Weithredwr. Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:

- llunio ac anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn unol â'r Blaengynlluniau Gwaith;
- darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau'r Cyngor a'i swyddogion;
- rheoli datblygiad strategol Craffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu gyda'r Cabinet;
- rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- rheoli cydlyniad a datblygiad Blaengynlluniau Gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r Grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- cynorthwyo â Rhaglen Datblygu Aelodau'r Pwyllgorau Craffu.

Gwybodaeth am Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin.

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk